

ATODIAD 3 - Cymal yn Nogfennau Tendro'r Adran

APPENDIX 3 - Clause in the Department's Tender Documents

POLISI IAITH CYMRAEG CYNGOR GWYNEDD 2016

Cyhoeddir y Polisi hwn yn unol â blaenoriaethau Cyngor Gwynedd a'r gofynion a osodir ar y Cyngor o dan Safonau Iaith Cymru, Adran 4 Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Pwrpas y Polisi yw nodi sut y bydd y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu i sicrhau bod ei holl wasanaethau yn diwallu angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Bydd hefyd yn fodd i sicrhau cydymffurfiaid â Safonau Iaith Cymru.

Bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir ym Mesur Cymraeg (Cymru) 2011, sef trin y Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal, gan roi statws a dilysrwydd cyfartal i'r ddwy iaith a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Mae'r Safonau Iaith Gymraeg, nid yn unig yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Cyngor, ond mae hefyd yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir ar ran y Cyngor gan bartïon eraill. Mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny a ddarperir ar ran y Cyngor gan bartïon eraill, bydd y Cyngor yn sicrhau:

- bydd unrhyw fanylebau, cytundebau, contractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn cydymffurfio â gofynion Polisi Iaith Cymru a Safonau Iaith Gymraeg;
- trwy drefniadau contractio mae'r asiant neu'r contractwr yn gallu ac yn gweithredu unrhyw elfennau cymwys o Bolisi a Safonau Cymraeg y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth;
- bydd gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg yn cael eu nodi mewn dogfennau a chontractau tendro;
- sefydlir gweithdrefnau priodol ar gyfer monitro cydymffurfiaid â Pholisi a Safonau Cymraeg.

GWYNEDD COUNCIL WELSH LANGUAGE POLICY 2016

This Policy is published in accordance with Gwynedd Council priorities and the requirements set upon the Council under the Welsh Language Standards, Section 4 Welsh Language Measure (Wales) 2011.

The purpose of the Policy is to note how the Council will plan and provide to ensure that all of its services meet the need of the local population from a linguistic perspective. It will also serve as a means to ensure compliance with the Welsh Language Standards.

The Council will operate according to the basic principle set out in the Welsh Language Measure (Wales) 2011, of treating the Welsh and English language as equal, giving both languages equal status and validity and not treating the Welsh language less favourably than the English language.

The Welsh Language Standards is not only relevant to services delivered directly by the Council but is also pertinent to services delivered on behalf of the Council by other parties. In relation to those services delivered on behalf of the Council by other parties the Council will ensure that:

- any specifications, agreements, contracts or arrangements made with third parties which relate to the provision of services to the public comply with the requirements of the Welsh Language Policy and Welsh Language Standards;
- through contracting arrangements the agent or contractor is able to and does implement any applicable elements of the Council's Welsh Language Policy and Standards when providing services to the public on its behalf or under its supervision
- requirements as to the use of Welsh will be specified in tendering documents and contracts;
- appropriate procedures for monitoring compliance with the Welsh Language Policy and Standards will be established.